

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o Drydydd Cyfarfod Blynyddol ar Hugain Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 23 Mai 2018 am 4pm.

YN BRESENNOL

L.M.Adams	M.Griffiths	S.Pickering
S.Belzak	J.Harries	S.Powderhill
D.R.Bevan	G.Holmes	M.J.Powell
H.Boggis	L.Hooper	S.M.Powell
S.A.Bradwick	G.E.Hopkins	S.Rees-owen
J.Brencher	P.Howe	A.Roberts
A.Calvert	G.W.Hughes	J.Rosser
G.Caple	J.James	R.Smith
A.Chapman	P.Jarman	G.Stacey
A.G.Cox	G.Jones	E.Stephens
A.Crimmings	K.L.Jones	M.Tegg
J.L.Cullwick	L.Jones	G.Thomas
G.R.Davies	R.Lewis	W.Treeby
A.Davies-Jones	W.Lewis	R.K.Turner
L.De Vet	C.Leyshon	M.Weaver
M.Diamond	D.Macey	M.Webber
S. Evans	A.Morgan	E.Webster
S.M.Evans	K.Morgan	G.D.G.Williams
M.Fidler Jones	S.Morgans	J.Williams
M.Forey	M.Norris	T.Williams
A.S.Fox	W.Owen	C. J. Willis
H.Fychan		R.Yeo
E.George		

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C.Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr C.Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr C.B.Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr R.Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr C.Hanagan - Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Ms K.May – Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto, J.Elliott, D.Grehan, D.Owen-Jones, S.Rees, L.Walker a D.H.Williams.

2. DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

3. SYLWADAU'R MAER SY'N YMDDEOL

Anerchodd y Maer sy'n ymddeol, y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Tegg, y Cyngor am ei blwyddyn yn y swydd. Diolchodd i Aelodau o'r Cyngor am roi iddi hi a'i Chymar, Larry, yr anrhydedd o wasanaethu Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Hoffai Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol nodi ei diolch am y cymorth a dderbyniodd hi yn ystod y flwyddyn gan ei Chymar; Larry, ac i'w hysgrifennydd; Ann, y Gyrrwr; Steve, y ffotograffydd; Karen, ac i James Whitehurst.

Myfyriodd ar lawer o'r achlysuron y bu'n bresennol ynddyn nhw yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r holl bobl a sefydliadau hyfryd y daeth hi i'w hadnabod; yn enwedig y plant gan eu bod nhw'n ysbrydoledig iawn, ac yn bleser i grwdd â nhw.

Dywedodd y Cyngorydd Tegg doedd cyfanswm terfynol yr arian a godwyd dros ei elusennau dewisol ddim yn hysbys eto. Yn anffodus, oherwydd y tywydd garw ar ddechrau'r flwyddyn, roedd rhaid canslo nifer o'r achlysuron a yddai wedi effeithio y ffigur amcangyfrifedig cyffredinol.

Wrth ymateb i hyn, talodd Aelodau deyrnged i'r Maer sy'n ymddeol, gan ei chymeradwyo a'i chanmol am ei holl waith ac ymdrechion caled yn ystod ei chyfnod yn y swydd.

4. ETHOL MAER CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF AM FLWYDDYN 2018/19 Y CYNGOR

PENDERFYNWYD – ethol Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill i fod yn Faer y Fwrdeistref Sirol ar gyfer Blwyddyn 2018-2019 y Cyngor.

Yn dilyn ethol Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill, cyflwynodd y Maer sy'n ymddeol Gadwyn ei Swydd iddo.

Ar ôl cymryd y Gadair, diolchodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill i'r Aelodau am eu cymorth, eu cefnogaeth, a'u hyder wrth ei ethol yn Faer y Fwrdeistref irol, a datganodd y bydd e'n ymgymryd â'r swyddogaeth â balchder, ac y bydd e'n llysgennad da. Yna fe dalodd e deyrnged wedyn i'r Maer sy'n ymddeol.

Yn fe gyhoeddodd y Maer ei elusennau dethol ar gyfer y flwyddyn, sef:-

- 'Giving to Pink'
- Canolfan Ganser Felindre
- Calonnau Cymru

Byddai hefyd yn edrych i roi cymorth i blant Rhondda Cynon Taf sy'n dioddef o glefyd y siwgr.

Cyflwynodd y Maer y Parchedig Peter Lewis fel ei Gaplan

Llongyfarchwyd y Maer ar ei benodiad gan y Cyngor.

5. PENODI DIRPRWY FAER CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF AM FLWYDDYN 2018-2019 Y CYNGOR

PENDERFYNWYD – penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.De Vet yn Ddirprwy Faer y Fwrdeistref Sirol am Flwyddyn 2018/19 y Cyngor.

Wrth benodi'r Dirprwy Faer, cyflwynodd y Maer Cadwyn ei Swydd iddi, ac fe'i llongyfarchwyd ar ei phenodiad.

6. BENDITH – Y PARCHEDIG PETER LEWIS

Galwodd y Maer ar y Parchedig Peter Lewis i gynnig bendith.

7. PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR

PENDERFYNWYD – penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan yn Arweinydd y Cyngor, a bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber yn cael ei phenodi yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor.

Diolchodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A. Morgan i'r Aelodau am gefnogi'i benodiad.

8. CYNLLUN SWYDDOGAETHAU GWEITHREDOL YR ARWEINYDD

Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor ei Gabinet, sy'n cynnwys naw o Aelodau (gan ei gynnwys ef ei hun) a'u dynodiadau unigol, fel a ganlyn:-

- Y Cynghorydd M.Webber – Dirprwy Arweinydd / Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor
- Y Cynghorydd Robert Bevan - Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai
- Y Cynghorydd Ann Crimmings - Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Diwylliant
- Y Cynghorydd G. Hopkins - Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant ac ar faterion y Gymraeg
- Y Cynghorydd M.A.Norris - Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol,
- Y Cynghorydd J.Rosser - Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Y Cynghorydd R.Lewis - Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol
- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol C. Leyshon - Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc

Datganodd yr Arweinydd y câi'r Cynllun Swyddogaethau Gweithredol ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor maes o law.

ADRODDIAD AR Y CYD CYFARWYDDWR Y CABINET A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS A CHYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

9. CYFANSODDIAD Y CYNGOR - NEWIDIADAU ARFAETHEDIG A MATERION ATEGOL

Yn eu hadroddiad ar y cyd, roedd Cyfarwyddwr y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yn gofyn am gymeradwyaeth Aelodau'r Cyngor ar gyfer y newidiadau arfaethedig a materion ategol yn ymwneud â Chyfansoddiad y Cyngor ac ar ôl ei ystyried, **PENDERFYNWYD –**

1. Nodi bod yr Aelodau wedi penderfynu cymeradwyo bod y Cyngor yn mabwysiadu'r newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor fel y manylir yn yr adroddiad yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol ar 14 Mai 2018;

Dyrannu Rhybuddion o Gynnig

2. I ddyrannu'r 20 Rhybudd o Gynnig fel sy'n ofynnol o dan Reol Gweithdrefn y Cyngor 10.2(a) dros Flwyddyn 2018-2019 y Cyngor fel a ganlyn:-

Llafur - 10
Plaid Cymru - 5
Alliance - 2
Y Blaid Geidwadol - 2
'Aelodau heb eu Neilltuo' - 1

Diwygiadau Arfaethedig i Reolau Gweithdrefn y Cyngor

3. Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 5.1 o'r adroddiad, i ddiwygio Rheol Gweithdrefn 9.4 y Cyngor gan ychwanegu Rheol Gweithdrefn newydd 9.4(e) fel a ganlyn: -

(e) Os nad yw Aelodau'n bresennol mewn cyfarfod lle maen nhw wedi cyflwyno cwestiwn i'w gynnwys ar agenda'r cyfarfod cyngor perthnasol, fydd y cwestiwn ddim yn cael ei ofyn. Yn ogystal â hyn, fydd dim disgwyl i'r Aelod y gofynnwyd y cwestiwn gyflwyno ymateb ysgrifenedig.

4. Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 5.3 – 5.6 o'r adroddiad, Rheol Gweithdrefn 10.1(d) y Cyngor gan ychwanegu paragraff newydd 10.1(d)(iii) fel a ganlyn: -

(iii) Bydd unrhyw rybudd o gynnig a gaiff ei dynnu yn ôl neu'i ohirio wedi iddo gael ei gyflwyno a'i gyhoeddi ar yr agenda yn cyfrif yn erbyn dyraniad rhybuddion o gynnig Grŵp y Cynigydd, neu ei (d)dyraniad ef/hi os yw ef/hi heb grŵp, yn unol â Rheol 10.2 (a).

5. Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 5.8 - 5.9 o'r adroddiad, i ddiwygio Rheolau Gweithdrefn y Cyngor fel a ganlyn: -

- Ail-rifo Rheol Gweithdrefn bresennol 10.3.3 i fod yn 10.3.4.
- Diwygio Rheol 10.3.3 fel ei bod yn darllen:

10.3.3 Caiff unrhyw rybydd o gynnig sy'n gofyn am newid i Fframwaith Polisi arfaethedig neu bresennol y Cyngor, ond mynnu adroddiad ar y mater i gael ei baratoi i'w drafod gan yr Adran Weithredol, y Cyngor neu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu/Pwyllgor Craffu thematig perthnasol fel sy'n briodol.

Trafodaeth ar Sefyllfa'r Fwrdeistref Sirol

6. Am y rhesymau a amlinellir ym mharagraffau 5.10 - 5.11 o'r adroddiad, i ddiwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 13.1 fel a ganlyn: -

Bydd Arweinydd y Cyngor yn galw trafodaeth ar Sefyllfa'r Fwrdeistref Sirol bob blwyddyn ar ddyddiad ac ar ffurf y cytunir arnynt gan y Maer.

7. Am y rhesymau a amlinellir ym Mharagraffau 5.13 - 5.14 o'r adroddiad i ddiwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 13.2 fel a ganlyn: -

Yr Arweinydd fydd yn pennu ffurf y ddadl, gyda'r nod o alluogi'r ymglymiad cyhoeddus, cyfranogiad uniongyrchol a chyhoedduswydd ehangaf posibl. Gall hyn gynnwys ymgysylltiad blaenorol â thrigolion a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Rheolau Trafodaeth

8. Am y rhesymau a amlinellir ym Mharagraff 5.16 o'r adroddiad i ddiwygio Rheol Gweithdrefn y Cyngor 12 gan ychwanegu Rheol Gweithdrefn newydd 12.14 fel a ganlyn: -

12.14 Mae gan Aelodau'r hawl i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Er mwyn osgoi amheuaeth, gallen nhw ymarfer unrhyw hawl sydd ganddyn nhw o dan Rheolau Gweithdrefn y Cyngor drwy naill gyfrwng neu'r llall.

Diwygiad Arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu

9. Am y rhesymau a amlinellir yn Adran 6 yr adroddiad, i ddiwygio'r Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Noder: Dymunai Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A.Chapman, A.G.Cox, J.L.Cullwick, G.R.Davies, J.R.Davies, M.Diamond, S.M.Evans, H.Fychan, L.Hooper, P.Howe, J.James, P.Jarman, K.L.Jones, L.Jones, D.Macey, K.Morgan, W.Owen, M.J.Powell, S.Rees-Owen, E.Stephens, M.Weaver, E.Webster, G.D.G.Williams a J.Williams gofnodi eu henwau wrth bleidleisio o blaid y newidiad coll canlynol:-

"Bod galw cyhoeddiad o benderfyniad y Cabinet i mewn yn parhau i fod yn 5 diwrnod gwaith clir yn hytrach na 3 diwrnod gwaith clir fel y cynigiwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad".

Ymgysylltiad Cyhoeddus o ran y broses Craffu

10. Am y rhesymau a amlinellir yn Adran 7 yr adroddiad i gyflwyno protocol mewn perthynas â galluogi aelodau'r cyhoedd i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn seiliedig ar yr egwyddorion a amlinellir ym mharagraff 7.8 yr adroddiad. Yn ogystal â hyn, i roi awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i gytuno a mabwysiadu'r fersiwn derfynol o brotocol o'r fath i'w gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Noder: Dymunai Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A.Chapman, A.G.Cox, J.L.Cullwick, G.R.Davies, J.R.Davies, S.M.Evans, H.Fychan, P.Jarman, L.Jones, D.Macey, K.Morgan, S.Rees-Owen, E.Stephens, M.Weaver, E.Webster a J.Williams gofnodi eu henwau wrth bleidleisio o blaid y newidiad coll canlynol:-

"Bod y cynnig canlynol fel y'u cynhwysir yn y paragraff fel y dangosir yn adran 7.8 yr adroddiad yn cael ei ddileu: -

"Efallai bydd gofyn i siaradwyr egluro unrhyw un o'u sylwadau, yn ogystal â derbyn cwestiynau gan yr Aelodau. Ni ddylai siaradwyr fynd i drafodaeth gydag Aelodau'r Pwyllgor"

Adrodd yn ôl i Aelodau

11. Am y rhesymau a amlinellir yn Adran 8 yr adroddiad, i gytuno bod templed adroddiad y Cabinet presennol yn cael ei ddefnyddio fel templed ar gyfer holl adroddiadau'r Cyngor ac adroddiadau'r Pwyllgorau eraill, yn ogystal ag adroddiadau sy'n cyd-fynd â Phenderfyniadau Dirprwyedig Allweddol y Swyddogion, yn symud ymlaen.

Blaenraglen Waith

12. Am y rhesymau a amlinellir yn Adran 9 yr adroddiad, i gytuno bod angen i Flaenraglenni Gwaith y Cyngor llawn, y Cabinet a'r Pwyllgorau

Craffu fod ar gael trwy un dudalen benodol ar wefan y Cyngor er mwyn gwella mynediad a chynyddu tryloywder.

Presenoldeb yr Aelodau mewn Cyfarfodydd

13. Nodi argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol, bod cyhoeddi presenoldeb yr Aelodau yn y Cydbwyllgorau (sydd ddim wedi'u rheoli gan y Cyngor) a Chyrff Allanol lle maen nhw'n cynrychioli'r Cyngor gael ei gynnwys yn rhan o'r argymhelliad a amlinellwyd yng Nghofnod 9.14 isod. Mae'r cofnodi yn nodi er mwyn galluogi cyhoeddiad, cyfrifoldeb yr Aelodau unigol yw rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Llywodraethol am eu presenoldeb mewn cyfarfodydd o'r fath.
14. Cytuno bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol (fel Swyddog Monitro) yn diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau angenrheidiol fel y manylir uchod a gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol.

ADRODDIADAU CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

10. PENODI AELODAU PWYLLGORAU 2018-2019

Ar ôl ystyried adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol **PENDERFYNWYD –**

1. Penodi'r Pwyllgorau sydd wedi'u nodi isod ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-2019:-
 - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu (x11 Aelod)
 - Pwyllgor Trwyddedu (x11 Aelod)
 - Pwyllgor Penodi (x5 Aelod)
 - Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion (x5 Aelod)
 - Pwyllgor y Gronfa Bensiwn (x5 Aelod)
 - Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol (x8 Aelod)
 - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (x15 Aelod)
 - Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad (x15 Aelod)
 - Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant (x15 Aelod)
 - Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc (x15 Aelod)
 - Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles (x15 Aelod)
 - Pwyllgor Archwilio (x15 Aelod)

2. Penodi x5 Aelod i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Bydd yr Aelodau'n cael eu penodi o aelodaeth Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.

11. CYRFF LLED FARNWROL/PWYLLGORAU AD HOC 2018-2019

Gofynnodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol am ystyriaeth y Cyngor i eistedd ar y Pwyllgorau Lled-farnwrol / Ad Hoc sydd wedi'u nodi yn ei adroddiad. Yn y cyfarfod, hysbysodd yr Aelodau, yn unol â chydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, y dylai'r Pwyllgorau sydd wedi'u rhestru yn (1) isod fod â 3 aelod Llafur, 1 aelod Plaid Cymru ac 1 aelod Alliance ac nid 4 Llafur ac 1 Plaid Cymru fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD -

1. Bod yr Aelodau sydd wedi'u nodi isod yn cael eu penodi i'r Pwyllgorau Lled-farnwrol / Ad Hoc canlynol sy'n wleidyddol gytbwys:-

Pwyllgor Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Addysg Lleol (x5 Aelod – 3 Llafur, 1 Plaid Cymru ac 1 Alliance)

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J.Brencher, M.Forey, S.Rees-Owen, J.Rosser a M.J.Powell

Panel Ymdeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo (x5 Aelod – 3 Llafur, 1 Plaid Cymru ac 1 Alliance)

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto, W.Treeby, M.Weaver a M.Webber M.J.Powell

2. Penodi cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings, R.Lewis, A.Morgan a M.Webber (4 Aelod) i'r **Cydbwyllgor Ymgynghorol (heb fod yn wleidyddol gytbwys)** .

12. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol wybod i'r Aelodau am ganlyniad yr adroddiad ynghylch Cydbwysedd Gwleidyddol yr Awdurdod a **PENDERFYNWYD** –

1. Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma.
2. Awdurdodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol i benodi i gyrrff gwleidyddol cytbwys fel Swyddog Priodol, ar ôl iddo gael ei dderbyn hysbysiad o ddymuniadau pwnc y grŵp gwleidyddol, mewn

achos o dderbyn ceisiadau dilynol ar gyfer newid i aelodaeth y Pwyllgorau yn cael ei gyfeirio at y Cyngor.

3. Nodi nad yw Aelodau'r Cabinet yn gymwys i'w penodi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu na Phwyllgorau Craffu.
4. Nodi y gall o leiaf un Aelod o'r Cabinet eistedd ar y Pwyllgorau Archwilio a Gwasanaethau Llywodraethol, ond bod Arweinydd y Cyngor wedi'i eithrio o'r swyddi hyn.

13. PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION 2018-2019

Yn ei adroddiad, roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yn gofyn am ystyriaeth o ran penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-2019, a **PHENDERFYNWYD -**

1. Penodi'r Aelodau canlynol i swyddi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau sydd wedi'u rhestru isod: -

Pwyllgor	Cadeirydd	Is-gadeirydd
Cynllunio a Datblygu	S.Rees	G.Caple
Trwyddedu	A.S.Fox	D.H.Williams
Penodiadau	C. J. Willis	M.Webber
Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion	J.Bonetto	S.Pickering
Cronfa Bensiwn	M.A.Norris	R.W.Smith

2. Penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.R.Davies fel Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber fel yr Is-gadeirydd yn unol â'r amodau a bennwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
3. Nodi, o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), 2011, y Pwyllgor Archwilio sy'n penodi'r Cadeirydd;
4. Cytuno y dylai'r Pwyllgor Archwilio fod yn gyfrifol ar gyfer penodi'r Is-gadeirydd;
5. Y bydd penodi Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad a Phwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc i'w dyrannu i'r Grwpiau Alliance a Phlaid Cymru yn y drefn honno;

6. Yn unol â'r enwebiadau a dderbyniwyd gan y Grwpiau Gwleidyddol priodol, bod yr Aelodau canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu sydd wedi'u nodi isod:--

Pwyllgor	Cadeirydd	Is-gadeirydd
Trosolwg a Chraffu	L.M.Adams	S. Evans
Cyllid a Chyflawniad	M.J.Powell	G.Thomas
Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant	S.Bradwick	T.Williams
Plant a Phobl Ifainc	S.Rees-Owen	W.Lewis
Iechyd a Lles	R.Yeo	G.Holmes

7. Cytuno i ddod â'r swydd Cydlynnydd Rheoli Cyflawniad – Craffu i ben am y rhesymau sydd wedi'u nodi ym mharagraff 3.13 o'r adroddiad.
8. Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 20 Mai, 2015, nodi bod y Maer a'r Dirprwy Faer yn cael eu penodi fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Chyfansoddiad Corfforaethol, yn y drefn honno.
9. Nodi bod Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-2019 i'w benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
10. Penodi Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto fel Is-gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.

14. DEGFED ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL PACGA - LWFANSAU A CHYFLOGAU I GYNGHORWYR

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol wybod i'r Aelodau o'r sefyllfa bresennol ynghylch cyflogau a lwfansau'r Aelodau yn dilyn cyhoeddiad Degfed Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (yr "Adroddiad PAC"). Gofynnodd hefyd am gymeradwyaeth ar gyfer cyflogau a lwfansau Aelodau ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-2019.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD--**

1. Nodi'r sefyllfa bresennol o ran cyflogau a lwfansau Aelodau yn dilyn canfyddiadau'r Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol ("y Panel") yn ei Ddegfed Adroddiad Blynyddol;
2. Yn unol â bandiau cydnabyddiaeth Cyflog Dinesig, fel y manylir ym mharagraff 3.11 yr adroddiad, bod Maer a Dirprwy Faer y Cyngor yn cael eu talu ar lefel 2;

3. Bod y swyddi canlynol yn cael eu talu ar Gyflog Uwch. Mae'r symiau i'w gweld yn Atodiad 1 i'r adroddiad: -
 - Arweinydd y Cyngor
 - Dirprwy Arweinydd y Cyngor
 - x7 Swyddog Gweithredol (Aelodau'r Cabinet)
 - Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu
 - Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu
 - Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
 - x4 Cadeirydd Pwyllgor Craffu
 - Arweinydd y prif Grŵp Wrthblaid
4. Nodi, os na fydd y Pwyllgor Archwilio yn penodi'r Aelod Lleyg fel Cadeirydd bydd y swydd yn aros fel un sy'n ddi-dâl.
5. Cytuno bod taliadau i Aelodau cyfetholedig yn parhau i fod yn daliadau sydd wedi'u capio ar uchafswm o'r hyn sy'n gyfwerth â 10 diwrnod cyfan y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y bo unigolyn yn gyfetholedig iddo.
6. Cytuno bod penderfynu na ddylai dyletswyddau etholaeth gael eu hystyried yn ddyletswyddau i'w cymeradwyo at ddibenion hawlio lwfans teithio.
7. Cadarnhau na fydd y Cyngor yn ad-dalu hawliadau cynhaliaeth ar gyfer busnes swyddogol sy'n digwydd yn y sir;
8. Penderfyniad y Panel y dylai fod gan bob Aelod gyfleusterau ffôn ac e-bost digonol, a modd electronig i ddod o hyd i'r wybodaeth briodol, heb fynd i gostau eu hunain i Aelodau Unigol a bod hyn yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol i'w adolygu. Ar ôl yr adolygiad, dylai unrhyw gynigion i weithredu'r penderfyniad yma gael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor llawn;
9. Nodi'r gofynion cyhoeddusrwydd yr Adroddiad PACGA y bydd angen i'r Cyngor eu cyflawni mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer y cyhoeddi'r gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan Aelodau yn ystod Blwyddyn y Cyngor;
10. Yn unol â pharagraffau 3.30 - 3.31 o'r adroddiad mewn perthynas â chyhoeddi ad-daliad costau gofal i bennu bod manylion y symiau a ad-dalwyd i Aelodau yn cael eu cyhoeddi a'u mabwysiadu.

15. CALENDR O GYFARFODYDD – BLWYDDYN Y CYNGOR 2018-2019

Yn eu hadroddiad ar y cyd, gofynnodd Cyfarwyddwr y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol am

y gymeradwyaeth o'r Calendr o Gyfarfodydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018/19 a ddangoswyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Yn unol ag Adran 6(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, cafodd Aelodau eu hysbysu o ganlyniadau'r arolwg diweddar i asesu dewisiadau'r Aelodau ynghylch amser cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol. Roedd y canlyniadau'n nodi bod 75% o'r rheiny a atebodd yn nodi'i bod hi'n well ganddyn nhw bod cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau yn dechrau am 5pm.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**—

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.
2. Yn dilyn ystyriaeth o'r ymatebion i'r arolwg o ran amser cynnal cyfarfodydd fel yr amlinellwyd ym mharagraff 5 yr adroddiad, dydy'r amser cynnal cyfarfodydd ddim wedi newid;
3. Ac eithrio'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, fydd cyfarfodydd ddim yn digwydd yn ystod gwyliau'r ysgol, oni bai bod yna fater brys;
4. Cytuno'r Calendr o Gyfarfodydd arfaethedig ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018/19.

16. PENODI AELODAU CYD-BWYLLGORAU ANWEITHREDOL 2018-2019

PENDERFYNWYD – penodi'r Aelodau sydd wedi'u nodi isod i'r Cydbwyllgorau Anweithredol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-2019:-

- (a) **Awdurdod Cyfun Gwasanaeth Tân De Cymru** (4 Aelod)
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S.Bradwick, J.Harries, S.Pickering, ac A.Roberts.
- (b) **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** (1 Aelod)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.P.Thomas

17. PENODIADAU I BANEL YR HEDDLU A MATERION TROSEDDAU 2018-2019

PENDERFYNWYD – penodi Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R.Lewis a R.W.Smith i Banel yr Heddlu a Materion Troseddau ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-2019.

18. PENODIADAU I GYRFF ALLANOL

PENDERFYNWYD – penodi'r Aelodau sydd wedi'u nodi isod i'r Cyrff Allanol canlynol:-

Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

1. **Cyfungorff Awdurdodau Lleol Cymru (C.L.A.W.) (Tymor Blwyddyn)**
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Norris
2. **Cyd-gyngor Cymru (Tymor Blwyddyn)**
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M.Webber a D.H.Williams
3. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Bwrdd Gweithredol (Tymor Blwyddyn)**
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan, G.Hopkins, R.Lewis, A.Morgan a M.Webber.
4. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Pwyllgor Cydlynu**
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber (Dirprwy).
5. **Bwrdd Canolfan Cydweithredol Cymru (Tymor Blwyddyn)**
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R.Lewis
6. **Elusen Edward Thomas (Tymor Blwyddyn)**
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A.Fox, E.George, R.Lewis a S.Pickering.
7. **Y Gynghrair (Tymor Blwyddyn)**
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J.Brencher, G.Jones a G.Thomas
8. **Pwyllgor Cyswllt Safle Glofa'r Tŵr (Tymor Blwyddyn)**
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol H.Boggis, K.Morgan a G.Thomas
9. **Tribiwnlys Prisio Cymru – Panel Penodi (Tymor Blwyddyn)**
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

10. **Age Connect Cymru (Tymor Blwyddyn)**
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins
11. **Pwyllgor Bowlio Dan Do Cwm Cynon (Tymor Blwyddyn)**
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan
12. **Trivallis (Tymor 3 Blynedd o fis Gorffennaf, 2018 i fis Gorffennaf, 2021)**
Penodi Swyddog – Mr.P.Mee.

19. ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR CRAFFU 2017-2018

Cyflwynodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yr Adroddiad Craffu Blynyddol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2017-2018. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd dros y 12 mis diwethaf, ac ar ôl trafodaeth **PENDERFYNWYD** – nodi'r adroddiad.

**M.TEGG
MAER SY'N YMDDEOL**

**S.POWDERHILL
MAER**

Daeth y cyfarfod i ben am 6.26pm.